

## CRYNODEB ASESU

Mae Polisi Asesu'r Ysgol yn sylfaen i bolisïau asesu adrannol. Bydd disgwyl i adran sydd heb lunio eu Polisi Asesu ddilyn yr un ysgol gyfan.

Asesu yn rhan annatod o'r addysgu a'r dysgu.

### Pwrpas

- Cydnabod llwyddiant.
- Ysgogi cymhelliad personol.
- Datblygu'r cwricwlwm fel rhan annatod o'r cynllun gwaith.
- Arwain at gofnodi traws ysgol ac adrodd ar ddisgybl.
- Gosod targedau ac asesiad athro y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Rhoi gwybodaeth i ddisgyblion, rhieni, penaethiaid adran/gyfadran, arweinwyr maes a'r UDRh am gynnydd disgyblion tuag at eu targedau.

### Dulliau

- Asesu Ffurfiannol Parhaus.
- Aseiniadau penodol crynodol.
- Profion byrfyfyr a ffurfiol.
- Arholiadau.

### Polisi Marcio

- Wrth farcio rhaid dangos yn glir beth mae'r disgybl yn ei wneud yn dda, a sut i wella.
- Mae'n arfer dda cynnwys sylwadau cadarnhaol adeiladol yn hytrach na marc neu radd.
- Sicrhau fod yr arfer da o ran cyflwyno gwaith yn cael ei ddilyn. (Cyfeirio at y cardiau ym mhob dosbarth).
- Cywiro prif wallau iaith gan ddefnyddio cynllun SPLAT! Yn drawsysgol.

### Gwaith Cartref

- Dilyn yr amserlen yn CA3.
- Canllawiau'r adran yn CA4.
- Cofnodi Gwaith Cartref, pob unigolyn efo taflen yng nghefn llyfr / ffeil.
- Gwaith mewn yn hwyr - cadw i mewn amser cinio a chyfeirio i'r pennaeth adran os yw'n rheolaidd.

### Cofnodi Trawsysgol

- Gosod targedau yn ystod Blwyddyn 7 ar gyfer diwedd CA3 ac ym Mlwyddyn 10 ar gyfer CA4.
- Bydd yn bosib adolygu targed ar ddechrau Blwyddyn 8, 9 ac 11.
- Asesiad o gyrhaeddiad tuag at y targed a osodwyd ar ddechrau'r cyfnod.
- Asesiad interim i rieni ar ddiwedd tymor 1 a 2 ac adroddiad llawn diwedd tymor 3 yn adrodd ar darged y cyfnod allweddol, ymdrech a chyrhaeddiad tuag at y targed.

